

General Optical Council



**Canllawiau
atodol
ar ganiatâd**

Cynnwys

Ynglŷn â'r canllawiau hyn	4
Sut mae'r canllawiau'n berthnasol i chi	6
Egwyddorion caniatâd	7
Cael caniatâd dilys	8
Y gallu i roi caniatâd	9
Gwrthod neu dynnu caniatâd yn ôl	12
Caniatâd i rannu gwybodaeth cleifion	13
Argyfyngau	14



**Gwybo
daeth
am y canllawiau
hyn**

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

1. Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r *Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi*, y mae'n rhaid i bob optometrydd ac optegydd cyflenwi eu cymhwyso i'w practis.
2. Ar gyfer optometryddion sy'n fyfyrwyr ac optegwyr cyflenwi sy'n fyfyrwyr, dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r *Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol*.
3. Mae'r safonau yn nodi'r canlynol yng nghyswllt caniatâd:

Safon 3. Cael caniatâd dilys

3.1 Cael caniatâd dilys cyn archwilio claf, darparu triniaeth neu gynnwys cleifion mewn gweithgareddau addysgu ac ymchwil. Er mwyn i gydsyniad fod yn ddilys, rhaid rhoi'r canlynol:

3.1.1 Yn wirfoddol.

3.1.2 Gan y claf neu rywun sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran y claf.

3.1.3 Gan rywun sydd â'r gallu i gydsynio.

3.1.4 Gan rywun sydd â gwybodaeth briodol. Mae "gwybodus" yn golygu egluro beth rydych chi'n mynd i'w wneud a sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o unrhyw risgiau ac opsiynau o ran archwilio, trin, gwerthu a chyflenwi offer optegol neu ymchwil y maent yn cymryd rhan ynddo. Mae hyn yn cynnwys hawl y claf i wrthod triniaeth neu gael hebryngwr neu gyfieithydd yn bresennol.

3.2 Bod yn ymwybodol o'ch rhwymedigaethau cyfreithiol yng nghyswllt caniatâd, gan gynnwys y gwahaniaethau yn y ddarpariaeth o ganiatâd ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Wrth weithio mewn gwlad yn y DU, ac eithrio lle rydych chi'n ymarfer fel arfer, byddwch yn ymwybodol o unrhyw wahaniaethau mewn cyfraith cydsyniad a chymhwyso'r rhain i'ch ymarfer.

3.3 Sicrhau bod cydsyniad y claf yn parhau'n ddilys ar bob cam o'r archwiliad neu'r driniaeth ac yn ystod unrhyw ymchwil y mae'n cymryd rhan ynddi.

Sut mae'r canllawiau'n berthnasol i chi

4. Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ar sut i fodloni safon y GOC ar ganiatâd. Nid yw'n creu gofynion newydd nac yn rhoi cyngor cyfreithiol.
5. Mae'r gair 'rhaid' yn nodi gofyniad gorfodol, er enghraifft, rhaid i gofrestryddion gydymffurfio â'r gyfraith a rhaid iddynt fodloni safonau'r GOC.
6. Dylech ddefnyddio eich barn broffesiynol i gymhwyso'r canllawiau hyn i'ch ymarfer eich hun a'r amrywiaeth o leoliadau y gallech weithio ynddynt.
7. Os nad ydych yn siŵr sut i symud ymlaen mewn sefyllfa benodol, dylech ofyn am gyngor gan gydweithwyr proffesiynol priodol, eich cyflogwr, eich darparwr yswiriant indemniad proffesiynol, eich corff proffesiynol neu gynrychiolydd, neu gael cyngor cyfreithiol annibynnol.
8. Dylai optometryddion sy'n fyfyrwyr ac optegwyr cyflenwi hefyd ofyn am gyngor gan eu tiwtor, eu goruchwyliwr neu eu darparwr hyfforddiant.
9. Mewn rhai amgylchiadau, gellir dirprwyo cael caniatâd i gydweithwyr eraill. Fodd bynnag, chi sy'n gyfrifol o hyd am sicrhau bod caniatâd dilys wedi'i roi, hyd yn oed os yw aelodau eraill o staff yn rhan o'r broses o gael caniatâd.

Egwyddorion caniatâd

10. Mae'n egwyddor gyfreithiol a moesegol gyffredinol bod yn rhaid cael caniatâd dilys ar y pwynt gofal a thrwy gydol y driniaeth. Mae'r egwyddor hon yn adlewyrchu hawl cleifion i benderfynu beth sy'n digwydd i'w cyrff eu hunain a gwneud dewisiadau gwybodus wrth brynu offer optegol. Mae caniatâd dilys yn rhan sylfaenol o arfer da.

Mathau o ganiatâd

11. Gall cleifion roi caniatâd mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac mae pob un ohonynt yr un mor ddilys.

a. Caniatâd penodol

Mae hyn yn golygu pan fydd claf yn rhoi caniatâd penodol i chi wneud rhywbeth, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig. Dylech gael caniatâd penodol os yw'r driniaeth neu'r gofal sy'n cael ei gynnig yn fwy ymwithiol a/neu os oes mwy o risgiau ynghlwm wrth hynny.

Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i symud offer yn agos at glaf, defnyddio teclyn cannwyll y llygad neu gynnal triniaeth gorfforol fel rhoi diferion, gosod lens gyffwrdd neu osod sbectol.

b. Caniatâd dealledig

Dyma pryd y gellir tybio caniatâd o weithredoedd claf, er enghraifft, drwy roi ei ên ar declyn fel awtoblygianydd yn dilyn esboniad o'r prawf dan sylw.

12. Rhaid i chi ddefnyddio eich barn broffesiynol i benderfynu pa fath o ganiatâd sydd ei angen, gan

ystyried anghenion, disgwyliadau ac amgylchiadau'r claf unigol, yn ogystal â'r risgiau cysylltiedig. I gael rhagor o wybodaeth am sut i gofnodi caniatâd, darllenwch baragraff 43: 'Cofnodi caniatâd'.

Cael caniatâd dilys

13. Er mwyn i ganiatâd fod yn ddilys, rhaid iddo fod:

- a. yn wirfoddol;
- b. gan rywun â gwybodaeth briodol;
- c. gan rywun sydd â'r gallu i roi caniatâd.

Os nad oes gan glaf y gallu i roi caniatâd, dylid cael hwn gan rywun sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran y claf.

Caniatâd gwirfoddol

14. Mae caniatâd gwirfoddol yn golygu bod y penderfyniad i roi caniatâd neu beidio yn cael ei wneud gan y claf ei hun ar sail ystyriaeth wybodus. Ni ddylai cleifion gael eu gorfodi gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, perthnasau neu eraill i dderbyn math penodol o driniaeth neu ofal, neu wrth werthu a chyflenwi offer optegol. Dylech fod yn ymwybodol o sefyllfaoedd lle gallai cleifion fod yn agored i niwed, er enghraifft, mewn lleoliadau cartref.

Cydsyniad ar sail gwybodaeth

15. Mae cael caniatâd yn rhan o broses barhaus o drafod a gwneud penderfyniadau rhyngoch chi a'ch claf yn hytrach na rhywbeth sy'n digwydd ar eich pen eich hun.
16. Dylech fodloni eich hun bod y claf mewn rhyw ffordd wedi rhoi caniatâd i bob agwedd ar y gofal yr ydych yn ei ddarparu.
17. Wrth gael caniatâd, rhaid i chi roi gwybodaeth glir a chywir i'ch claf mewn ffordd y gall ei deall.
18. Rhaid i chi ddefnyddio eich barn broffesiynol i benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gwybodaeth i glaf. Gallai hyn fod yn ysgrifenedig, gan gynnwys mewn taflen, neu drwy siarad â'r claf, boed hynny cyn neu yn ystod ei apwyntiad.

19. Dylai cofrestryddion wneud ymholiadau priodol i helpu i benderfynu a oes gan glaf unrhyw broblemau gwybodaeth neu gyfathrebu penodol gan y gallai hyn ddylanwadu ar y math o ganiatâd a gewch a sut yr ydych yn ei gofnodi.
20. Rhaid i chi ystyried unrhyw anabledau, llythrennedd neu rwystrau iaith a allai effeithio ar ddealltwriaeth claf a newid eich dull cyfathrebu i ystyried hyn.
21. Ni ddylech wneud rhagdybiaethau am lefel gwybodaeth neu ddealltwriaeth y claf a dylech roi cyfle iddo ofyn cwestiynau ac ystyried unrhyw bryderon neu ddisgwyliadau y gall fod wedi'u mynegi, ac ymateb iddynt.
22. Ni ellir awgrymu caniatâd yn syml ar y sail bod claf wedi dod i'w apwyntiad, oherwydd efallai na fydd y claf wedi cael digon o wybodaeth i roi caniatâd dilys. Ni ellir rhagdybio caniatâd oherwydd iddo gael ei roi ar achlysur blaenorol. Rhaid i chi gael caniatâd y claf bob tro y bydd ei angen, er enghraifft, pan fydd newid mewn opsiynau triniaeth neu wasanaeth.

Y gallu i roi caniatâd

23. Er mwyn i ganiatâd fod yn ddilys, rhaid iddo gael ei roi gan rywun sydd â'r gallu i roi caniatâd.
24. Mae 'gallu' yn cyfeirio at allu eich claf i wneud y canlynol:
 - a. deall a chadw gwybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad sy'n ofynnol yng nghyswllt ei driniaeth neu ofal;
 - b. pwysu a mesur yr wybodaeth a ddarparwyd a'r opsiynau sydd ar gael (gan gynnwys canlyniadau peidio â rhoi caniatâd);
 - c. cyfleu ei benderfyniad (ar lafar, drwy lofnodi neu drwy unrhyw ddull arall o gyfathrebu).

Asesu gallu

25. Fel gweithiwr proffesiynol, bydd angen i chi asesu a oes gan eich claf y gallu i roi caniatâd. Tybir bod gan y rhan fwyaf o oedolion y gallu i roi caniatâd ond mae fframwaith cyfreithiol sy'n amlinellu sut mae gallu yn cael ei asesu mewn oedolion, pobl ifanc a phlant ledled y DU.
Cyfeiriwch at ein fframwaith cyfreithiol ar wefan y GOC i gael rhagor o fanylion.
26. Dylai eich asesiad o allu fod yn wrthrychol a dylech gofio am yr egwyddor y dylid helpu cleifion, lle bo hynny'n bosibl, i wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth a'u gofal.
27. Rhaid i chi beidio â thybio nad oes gan glaf allu ar sail ei oedran, ei anabledd, ei gredoau, ei gyflwr neu ei ymddygiad, neu oherwydd ei fod yn gwneud penderfyniad yr ydych yn anghytuno ag ef.
28. Rhaid i chi asesu gallu eich claf ar sail ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen iddo gael ei wneud. Efallai y bydd rhai amgylchiadau lle gallai claf wneud rhai penderfyniadau ond nid penderfyniadau eraill.
29. Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y bydd claf yn gallu deall yr wybodaeth berthnasol os rhoddir esboniad priodol iddo, megis drwy ddefnyddio iaith symlach neu gymhorthion gweledol. Yn y sefyllfaoedd hyn, rhaid ystyried bod gan y claf allu a rhaid i chi gymryd camau rhesymol i gyfleu'r wybodaeth berthnasol mewn ffordd y mae'r claf yn ei deall i'w alluogi i roi caniatâd (neu i beidio â rhoi caniatâd).
30. Rhaid i chi beidio â thybio, oherwydd nad oes gan glaf allu ar un achlysur, neu yng nghyswllt un math o wasanaeth, nad oes ganddo'r gallu i wneud pob penderfyniad na'r gallu i wneud penderfyniadau bob amser.

31. Gall amrywiaeth o ffactorau eraill effeithio dros dro ar allu claf i roi caniatâd, enghraifft salwch, meddyginiaeth ar bresgripsiwn, sioc, panig, blinder, dryswch, poen neu effeithiau cyffuriau neu alcohol.
32. Ni ddylai bodolaeth y ffactorau hyn arwain at ragdybiaeth awtomatig nad oes gan y claf allu i roi caniatâd. Yn hytrach, dylech ddefnyddio eich barn broffesiynol i wneud penderfyniad ar sail yr holl amgylchiadau a'r wybodaeth sydd ar gael i chi yn rhesymol.
33. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yn briodol gohirio'r penderfyniad nes bydd yr effeithiau dros dro yn lleihau a'r gallu'n cael ei adfer.

Pan nad oes gan glaf allu

34. Os nad yw eich claf yn gallu gwneud penderfyniadau drosto'i hun, mae'r gyfraith yn nodi'r meini prawf a'r prosesau i'w dilyn. Gall hyn hefyd roi awdurdod cyfreithiol i rai pobl wneud penderfyniadau ar ran cleifion nad oes ganddynt allu.
35. I gael rhagor o gyngor ynghylch pan nad oes gan glaf allu, cyfeiriwch at ein fframwaith cyfreithiol ar wefan y GOC.

Cefnogaeth a hyfforddiant pellach

36. Os ydych chi'n ansicr ynghylch gallu claf, dylech gael cyngor gan eich cyflogwr, uwch gydweithwyr eraill, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol neu bobl sy'n ymwneud â'u gofal. Os ydych chi'n dal yn ansicr, efallai y bydd angen i chi ymgynghori â'ch corff proffesiynol neu gynrychioliadol neu gael cyngor cyfreithiol. Dylai unrhyw gyngor a gewch neu asesiadau a gynhelir gael eu cofnodi'n gywir, ynghyd â'r canlyniad.

37. Os oes angen i chi ddatblygu eich sgiliau asesu gallu, dylech ymgymryd â hyfforddiant pellach fel y bo'n briodol.

Gwrthod neu dynnu caniatâd yn ôl

38. Mae gan rywun â gallu hawl i wrthod triniaeth neu ofal neu i dynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. Rhaid i chi barchu ei benderfyniad hyd yn oed os ydych chi'n credu bod y driniaeth neu'r gofal er ei les gorau.
39. Yn yr amgylchiadau hyn dylech esbonio canlyniadau ei benderfyniad yn glir ond rhaid i chi sicrhau nad ydych yn rhoi pwysau ar y claf i dderbyn eich cyngor; os yw'r claf yn cytuno dim ond o ganlyniad i'r pwysau sy'n cael ei roi arno, yna efallai na fydd hyn yn cael ei ystyried yn ganiatâd dilys.
40. Dylech gofnodi os bydd claf yn gwrthod neu'n tynnu ei ganiatâd yn ôl. Dylai hyn gynnwys y trafodaethau sydd wedi cael eu cynnal a'r cyngor rydych chi wedi'i roi. Os yw'r claf wedi rhoi rheswm, dylech gynnwys hyn yn eich nodiadau. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i'r claf roi rheswm dros wrthod neu dynnu caniatâd yn ôl.
41. Os ydych chi'n credu bod risg o niwed difrifol i'r claf neu i eraill oherwydd ei benderfyniad i wrthod gwasanaeth neu driniaeth, rhaid i chi godi'r mater hwn gyda'r cydweithwyr gofal iechyd priodol neu'r bobl sy'n ymwneud â'u gofal, a'ch cyflogwr (os yw'n berthnasol). Ystyriwch gael cyngor cyfreithiol os oes angen.
42. I bobl ifanc a phlant sy'n gwrthod neu'n tynnu caniatâd yn ôl, mae'r fframwaith cyfreithiol yn fwy cymhleth. Cyfeiriwch at ein fframwaith cyfreithiol ar wefan y GOC i gael rhagor o fanylion.

Cofnodi caniatâd

43. Mae Safon 8 yn y *Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi* a safon 7 yn y *Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol* yn ymwneud â chadw

cofnodion cleifion digonol. Fel egwyddor gyffredinol, rhaid i chi gadw cofnodion cleifion clir, darllenadwy a chyfoes.

44. Dylech ddefnyddio eich barn broffesiynol i benderfynu pryd a sut i gofnodi caniatâd ar sail cymesuredd, risg, anghenion ac amgylchiadau'r claf a'r math o driniaeth neu ofal.
45. Dylech gofnodi os bydd claf yn gwrthod neu'n tynnu ei ganiatâd yn ôl.

Caniatâd i rannu gwybodaeth cleifion

46. Mae gwybodaeth yng nghofnod claf yn amodol ar ddyletswyddau proffesiynol, moesegol a chyfreithiol cyfrinachedd. Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn deall ac yn disgwyl y bydd rhywfaint o wybodaeth gyfrinachol yn cael ei rhannu rhwng gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn darparu eu gofal.

Caniatâd dealedig

47. Fel gweithiwr optegol proffesiynol sy'n cael ei reoleiddio, gallwch ddibynnu ar ganiatâd dealedig i rannu gwybodaeth gyfrinachol â'r rheini sy'n darparu (neu'n cefnogi'r gwaith o ddarparu) gofal uniongyrchol i'r claf os ydych chi'n fodlon bod pob un o'r canlynol yn berthnasol:
- bod y sawl sy'n cael neu'n cael yr wybodaeth yn darparu neu'n cefnogi gofal y claf;
 - mae gwybodaeth ar gael yn rhwydd i gleifion yn egluro sut y bydd eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio (er enghraifft, mewn taflenni, posteri, ar wefannau neu wyneb yn wyneb), ac mae ganddynt hawl i wrthwynebu;
 - nid yw'r claf wedi gwrthwynebu;
 - bod unrhyw un y datgelir gwybodaeth gyfrinachol iddo yn deall ei bod yn cael ei rhoi iddynt yn gyfrinachol, a rhaid iddynt barchu hynny.
48. Ni ddylai cleifion gael eu synnu o wybod sut mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio, ei darllen na'i

datgelu. Os yw gwybodaeth yn cael ei defnyddio mewn ffyrdd na fyddai cleifion yn eu disgwyl yn rhesymol, dylech ofyn am ganiatâd penodol ar gyfer hyn gan y claf.

49. Mae gan y claf hawl i'w ddymuniadau gael eu parchu os yw'n gwrthwynebu i wybodaeth bersonol benodol gael ei rhannu yn eich tîm gofal iechyd eich hun neu gydag eraill sy'n ymwneud â'i ofal – oni bai y byddai cyfiawnhad dros ddatgelu er budd y cyhoedd, yn ofynnol yn ôl y gyfraith, neu fod hyn er lles gorau claf sydd heb allu i wneud y penderfyniad er mwyn atal niwed.
50. Os na ellir rhoi gwybod i glaf am ddatgelu ei wybodaeth, er enghraifft, mewn argyfwng, dylech drosglwyddo gwybodaeth berthnasol yn brydlon i'r rhai sy'n darparu gofal. Os a phan mae'r claf yn gallu deall, dylech ddweud wrtho sut y cafodd ei wybodaeth bersonol ei datgelu os oedd hynny mewn ffordd na fyddai'n rhesymol i'w disgwyl.

Argyfyngau

51. Mewn achos prin o argyfwng, os na allwch gael caniatâd, gallwch ddarparu triniaeth, cymryd camau neu wneud atgyfeiriad sydd er lles pennaf y claf ac sydd ei angen i achub ei olwg neu atal dirywiad yng nghyflwr y claf (mae hyn yn berthnasol i blant, pobl ifanc ac oedolion).
52. Yr eithriad i hyn yw pan fydd penderfyniad ymlaen llaw dilys a pherthnasol i wrthod triniaeth benodol neu ofal iechyd yn fwy cyffredinol ar waith. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai angen i chi barchu dymuniadau'r claf a allai olygu peidio â chymryd unrhyw gamau.
- Mae'r penderfyniadau ymlaen llaw hyn yn annhebygol iawn o fod yn berthnasol yn y cyd-destun optegol, ond i gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar y ddeddfwriaeth analluedd berthnasol a'i chod ymarfer neu gofynnwch i'ch darparwr yswiriant indemniad proffesiynol neu gynghorydd cyfreithiol.

Fformatau eraill

Gallwch gael y llyfryn hwn mewn fformatau eraill drwy anfon e-bost at :
communications@optical.org